

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**SWYDD-DDISGRIFIAD**

<b>Adran</b>	Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
<b>Swydd</b>	Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg
<b>Rhif y Swydd</b>	NU285
<b>Gradd</b>	13
<b>Lleoliad</b>	Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llantrisant
<b>Yn gyfrifol i'r</b>	Pennaeth Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
<b>Yn gyfrifol am</b>	Swyddog(ion) Ystadegol a Dadansoddi Risg Swyddog(ion) Ymgysylltu, Trawsnewid a Pherfformiad Swyddog(ion) Gwybodaeth a Chymorth
<b>Cyfrifoldeb dros Adnoddau Corfforol</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol</b>	Ddim yn berthnasol

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

**PRIF BWRPAS Y SWYDD**

I fod yn gyfrifol am reoli perfformiad, cynllunio a risg y Gwasanaeth ac i ddatblygu, gweithredu a chynnal pob strategaeth gysylltiol. Hefyd, bydd y rôl yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a rheoli systemau sy'n gysylltiedig â darparu data a gwybodaeth weithredol ac ystadegol rymus gan gynnwys dadansoddi a modelu i alluogi'r Gwasanaeth i wneud penderfyniadau strategol a gweithredol gwybodus. Yn gyfredol, mae'r systemau'n cynnwys y System Cofnodi Digwyddiadau (SCD) electronig, y model Cwmpasiad Argyfwng y Gwasanaeth Tân (CAGT) a'r System Gwybodaeth Rheoli Busnes.

Bydd deilydd y swydd yn datblygu dull adrannol wrth gorffori gwelliant parhaus ar hyd y Gwasanaeth.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

1. I reoli proses ddatblygu, gweithredu ac adolygu fframwaith cynllunio busnes y Gwasanaeth mewn perthynas â'r tîm, adran a'r sefydliad i ddiwallu gofynion deddfwriaethol.
2. I fod yn gyfrifol am reolaeth a chyd-lyniaeth gyfansymiol systemau data a gwybodaeth weithredol berthnasol gan gynnwys cyfrifoldeb dros ddarparu desg gymorth IRS fewnol.

3. I weithio'n agos ag arweinwyr prosiect, Penaethiaid Adran a pherchnogion cynllunio busnes a'u cynghori wrth ddatblygu mesurau perfformiad allweddol gogyfer sicrwydd sefydliadol, darparu prosiectau a chynlluniau busnes ynghyd â gweithio o fewn fframiau amser, safonau a chyllidebau penodol.
4. I weithredu fel man cyswllt unigol a chynrychioli'r Gwasanaeth ar grwpiau a phwyllgorau Cenedlaethol a Lleol mewn perthynas â pherfformiad, cynllunio a gwelliant parhaus.
5. I fod yn gyfrifol am oruchwylio a chynnal proses sicrhau ansawdd systemau data perthnasol a sicrhau y gweithredir pob diweddariad gwelliant system a symbylir gan Gymunedau a Llywodraeth Leol (CLI L) a Llywodraeth Cymru (LI C) mewn modd amserol, a bydd unrhyw newidiadau system neu anghenion hyfforddi ychwanegol yn cael eu cyflawni'n gyflym ac effeithlon i gynnal uniondeb systemau.
6. I sicrhau y paratoir, dilysir a chyflwynir pob gorchymyn ac adroddiad ystadegol a gynlluniwyd i'r awdurdodau perthnasol, yn fewnol ac allanol i'r Gwasanaeth ill dau, o fewn y terfynau amser gofynnol, gan gynnwys CLI L, LI C, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), yr Uwch Dîm Rheoli, Cyfarwyddiaeth, Gorsafoedd ac Adrannau.
7. I reoli'r broses modelu risg gyfrifiadurol i ddarparu gwybodaeth risg i hysbysu penderfyniadau strategol a'r broses gynllunio lleihau risg. Sicrhau y cynhelir yr holl ofynion modelu gan gynnwys gwybodaeth adnoddau, digwyddiad geogofodol, gwybodaeth rhwydwaith ffyrdd a data risg pwrpasol i bob arwyneb data ac y gweithredir pob gwelliant a diweddariad mewn modd amserol ac ansoddol er mwyn cynnal cywirdeb a chylchrediad y wybodaeth risg.
8. I ddarparu dadansoddiad o ddata ac adnabod tueddiadau a meysydd allweddol ar gyfer ymchwilio pellach, gan gynnal safon ac ansawdd fydd yn diwallu craffu allanol. I fod yn gyfrifol am gyflwyno'r canfyddiadau dilynol i awdurdodau perthnasol, yn fewnol ac allanol i'r Gwasanaeth, o fewn y terfynau amser gofynnol.
9. I reoli a datblygu system gwybodaeth rheoli busnes y sefydliad ac i hwyluso hyfforddiant, cyngor a chymorth i ddefnyddwyr lle bo'r gofyn.
10. I fod yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli Matrics Risg y Gwasanaeth gan gynnwys sicrhau ansawdd a diogelu data pob cyfres ddata a ddefnyddir.
11. I gynnal cysylltiadau â staff rheoli i sicrhau bydd data systemau danfon yn gywir, amserol a dilys.
12. I gyflwyno, datblygu a chynnal systemau a gysylltir â chasglu, dadansoddi a mapio data yn fewnol ac allanol i'r Gwasanaeth.

13. I ddarparu gwybodaeth ystadegol i asiantaethau a phartneriaid eraill ac aelodau'r cyhoedd yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.
14. I baratoi a darparu cyngor a hyfforddiant sy'n ymwneud â materion ystadegol i bersonél y Gwasanaeth yn ôl y gofyn.
15. I gysylltu ag adrannau GTADC ar bob lefel i sicrhau coladu a chyflwyno effeithiol o ddata sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth.
16. I ymchwilio, adnabod a gweithredu arferion da a gwelliant parhaus mewn perthynas â swyddogaeth y tîm Cynllunio, Perfformiad a Risg.
17. I gysylltu â Gwasanaethau Tân ac Achub ac asiantaethau eraill ac i ryngweithio â hwy i rannu ac ennill arferion gorau.
18. I fod yn gyfrifol am reoli, goruchwyllo, morál, lles, diogelwch a datblygu staff Cynllunio, Perfformiad a Risg staff yn unol â gweithdrefnau a chanllawiau'r Gwasanaeth.

### **GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurool â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd

### **GWERTHOEDD SEFYDLIADOL**

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

D.S: Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio achlysurol rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.



**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU  
Y FANYLEB PERSON**

<b>ADRAN</b>	Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
<b>TEITL Y SWYDD</b>	Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg
<b>RHIF Y SWYDD</b>	NU285
<b>GRADD</b>	13
<b>LLEOLIAD</b>	Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llantrisant

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir** ac a nodir â seren\* at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran '*Profiad a Gwybodaeth Arall*'). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

<b>Ffactor</b>	<b>Tystiolaeth</b>	<b>Hanfodol/ Dymunol</b>	<b>Dull Canfod</b>
<b>Cymwysterau</b>	<b>Cymhwyster lefel gradd mewn maes pwnc sy'n gysylltiedig â'r swydd, <u>h.y.</u> rheoli, ystadegaeth, rheoli data, rheoli perfformiad NEU brofiad perthnasol*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/ Proses Ddethol</b>
<b>Gwybodaeth/ Profiad</b>	<b>Gwybodaeth a dealltwriaeth o gynllunio busnes a rheoli perfformiad*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/ Proses Ddethol</b>
	<b>Profiad profedig o reoli a dehongli data a gwybodaeth gymhleth i hysbysu'r broses benderfynu ac adrodd*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/ Proses Ddethol</b>
	Gwybodaeth o'r sbardunau gwleidyddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n debyg o effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn gyfredol ac i'r dyfodol	Hanfodol	Proses Ddethol
	Profiad o reoli tîm	Dymunol	Proses Ddethol
	Y gallu i siarad Cymraeg	Dymunol	Ffurflen Gais
<b>Arddull</b>	Y gallu i hyrwyddo a rheoli amrywiaeth ac	Hanfodol	Proses

<b>Bersonol</b>	arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa		Ddethol
	Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwyntiedig mewn sefyllfaoedd hynod heriol yn gyson	Hanfodol	Proses Ddethol
	<b>Bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, ac â'r gallu i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo effeithiolrwydd gweithredol gwell*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/Proses Ddethol</b>
<b>Rhyngbersonol</b>	<b>Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais*/Proses Ddethol</b>
	Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd (e.e. arwain tîm, cyflwyno gwybodaeth a chyfathrebu â Phartneriaid a'r Cyhoedd)	Hanfodol	Proses Ddethol
	Yr ymrwymiad a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion a thimau, i wella effeithiolrwydd gweithredol	Hanfodol	Proses Ddethol
<b>Tasg</b>	<b>Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau addas sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a gofynion allweddol*</b>	<b>Hanfodol*</b>	<b>Ffurflen Gais/Proses Ddethol*</b>
	Y gallu i arwain grwpiau i gyflawni rhagoriaeth drwy sefydlu, cynnal a rheoli anghenion perfformiad	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i greu a gweithredu cynlluniau effeithiol i ddarparu ystod o amcanion sefydliadol	Hanfodol	Proses Ddethol

**Bydd angen archwiliad estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn achos cais llwyddiannus. Bydd meddu ar gofnod troseddol ddim o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.**

**Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio achlysurol rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**